# Agenda - Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Medi 2015

Amser: 09.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddBusnes@Cynulliad.Cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.45-10.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

(10.00-11.00) (Tudalennau 1 - 30)

Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Rob Halford, Pennaeth Strategaeth a Chynllunio, Llywodraeth Cymru

Geraint Green, Pennaeth Busnes ac Arloesedd, Llywodraeth Cymru

Steven Davies, Pennaeth Cyllid Arloesol, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil

EBC(4)-21-15 (p.1) Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

## 3 Sesiwn ddiweddaru gyda Llysgenhadon Cyllid yr UE

(11.00-12.00)

Grahame Guilford, Llysgennad Cyllid yr UE

Hywel Ceri Jones, Llysgennad Cyllid yr UE

Gaynor Richards, Llysgennad Cyllid yr UE

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 **Bil Drafft Cymru**

(Tudalen 31)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-21-15 (p.2) Llythyr gan y Llywydd ynghylch Bil Drafft Cymru

4.2 **Llythyr gan y Comisiynydd Pobl Hŷn ynghylch Cyfleoedd Cyflogaeth i Bobl dros 50 Oed**

(Tudalennau 32 - 34)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-21-15 (p.3) Llythyr gan y Comisiynydd Pobl Hŷn ynghylch Cyfleoedd Cyflogaeth i Bobl dros 50 Oed

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6 Trafodaeth ar Bwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

(12.00-12.15) (Tudalennau 35 - 38)

Dogfennau atodol:

Papur Trafod ar Bwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

## Ôl-drafodaeth breifat

(12.15-12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Menter a Busnes 23 Medi, 2015**

**Papur Tystiolaeth - Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**

**Papur Tystiolaeth**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn nodi'r dystiolaeth ysgrifenedig ynghylch Cynllun Buddsoddi Juncker a chyllid Banc Buddsoddi Ewrop (EIB); Llysgenhadon Cyllid yr UE; Horizon 2020 a'r Economi Forol.

## Cynllun Buddsoddi Junker a Chyllid Banc Buddsoddi Ewrop - y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Strategol

2. Ar 26 Tachwedd, cyhoeddodd Llywydd y Comisiwn, Juncker, y Cynllun Buddsoddi ar gyfer Ewrop yn Senedd Ewrop, gan gynnwys cynlluniau i sefydlu Cronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Strategol (EFSI). Bydd yr EFSI yn darparu gwarantau dwyn risg i Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB) gyda gwerth o €21 biliwn ar gyfer buddsoddiadau strategol mawr mewn meysydd fel trafnidiaeth, ynni, arloesedd, ymchwil, addysg a chymorth i Fusnesau Bach a Chanolig. Y nod uchelgeisiol yw ysgogi €315 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol, o'r sector preifat yn bennaf, dros y pedair blynedd nesaf.

3. Yn dilyn y cyhoeddiad dechreuol ym mis Tachwedd, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn gyflym i nodi cynlluniau priodol yng Nghymru a allai elwa o fenthyciadau ad-daladwy gan yr EFSI ac y gellid eu cynnwys ar biblinell o brosiectau dangosol y DU sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth y DU. O ganlyniad, cafodd deg prosiect o Gymru eu cynnwys ar biblinell o brosiectau dangosol y DU ac, o blith y rhain, cafodd un prosiect o Gymru ei gynnwys ar biblinell y Comisiwn o gyfleoedd buddsoddi ar draws Ewrop.

4. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i adolygu a mireinio'r biblinell Gymreig ddangosol. Sefydlais Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar EFSI, yn cynnwys cynrychiolwyr o holl Adrannau Llywodraeth Cymru, i arwain y gwaith hwn. Mae'r broses hefyd wedi cynnwys cyfnod sylweddol o ymgysylltu o fewn Cymru, ledled y DU ac ar lefel Ewropeaidd.

*Ymgysylltu ynghylch Piblinell EFSI Cymru*

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol tuag at EFSI, sydd wedi sicrhau bod y biblinell ddiwygiedig o gynlluniau o Gymru sydd â'r potensial i gael mynediad at ariannu trwy'r EFSI yn cynnwys cynlluniau o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r biblinell hefyd yn adlewyrchu ystod eang o sectorau, gan gynnwys Iechyd;

Cludiant; Ynni; Llifogydd; Arloesi; Addysg Bellach; Addysg; Addysg Uwch; a Thai.

6. O ran ymgysylltu yng Nghymru, rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Gweinidogion i gyd i nodi cynlluniau priodol, a allai o bosibl elwa ar ariannu drwy'r EFSI. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Addysg Bellach, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chwmnïau preifat, er mwyn crynhoi ehangder y cyfleoedd buddsoddi sydd ar gael yng Nghymru.

7. Ar lefel y DU, rwyf hefyd wedi arwain y gwaith o ymgysylltu â chymheiriaid yn Llywodraethau'r Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU. Yn ogystal, mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio ar lefel y DU drwy Grŵp Trawslywodraethol ar EFSI (Whitehall a'r Gweinyddiaethau Datganoledig), sy'n cael ei gydlynu gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet.

8. Ar lefel Ewropeaidd, rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd fis Mawrth diwethaf er mwyn sicrhau eglurder cynnar ynghylch y trefniadau manwl ar gyfer yr EFSI. Ym mis Gorffennaf, fe wnes i gyfarfod hefyd â Jonathan Taylor, Is-lywydd yn yr EIB sy'n gyfrifol am ariannu gweithrediadau yn y DU, ym mhencadlys yr EIB yn Lwcsembwrg. Mae mwy o wybodaeth am y cyfarfod hwnnw wedi'i gynnwys yn fy Natganiad Ysgrifenedig, sydd ar gael yn http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/mtgjt/?lang=en.

*Y Camau Nesaf*

9. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu ei thrafodaethau cadarnhaol â Banc Buddsoddi Ewrop ar gynlluniau penodol. Mae Banc Buddsoddi Ewrop eisoes wedi cydnabod cadernid a hygrededd piblinell Cymru ac, yn y cyd-destun hwnnw, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn obeithiol y bydd Cymru yn parhau i weld buddsoddiad sylweddol gan Fanc Buddsoddi Ewrop yn y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys arian sydd ar gael drwy'r EFSI.

10. Yn ystod fy nghyfarfod â Banc Buddsoddi Ewrop ar 16 Gorffennaf, derbyniodd Jonathan Taylor wahoddiad i Ganolfan Cynghori Buddsoddi'r UE sydd newydd ei ehangu i gynnal gweithdy yng Nghymru i hyrwyddo EFSI i noddwyr prosiectau. Bydd hyn yn rhoi cyfle pellach i hyrwyddo'r EFSI yng Nghymru yn uniongyrchol gyda noddwyr prosiectau a byddaf yn rhoi diweddariad am y gweithdy hwn maes o law.

**Llysgenhadon Cyllid yr UE**

11. Penodais y panel o Lysgenhadon Ariannu'r UE (Dr Hywel Ceri Jones, Dr Grahame Guilford a Gaynor Richards MBE) ar 3 Rhagfyr 2014 i helpu i hyrwyddo a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a gyflwynir gan raglenni ariannu a reolir yn uniongyrchol gan yr UE. Gwnaed y penodiadau mewn ymateb

uniongyrchol i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar gyfleoedd cyllido'r UE 2014-2020, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014, a oedd yn tynnu sylw at yr angen i ymgysylltu â, a hyrwyddo ymhellach raglenni a reolir yn uniongyrchol gan yr UE yng Nghymru .

12. Wrth wneud y penodiadau roeddwn yn awyddus i'r Llysgenhadon ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad sylweddol o bolisïau a chyllid Ewropeaidd ac o weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i gryfhau'r trefniadau partneriaeth sydd eu hangen i helpu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cronfeydd hyn a reolir yn uniongyrchol gan yr UE. Gofynnwyd i'r Llysgenhadon weithio o fewn eu sectorau eu hunain i helpu i hyrwyddo a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyllido hyn ac i roi cyngor i mi ar sut y gallai Cymru fod yn fwy llwyddiannus o ran manteisio ar gyllid o dan y rhaglenni hyn.

*Y Rhaglen Waith*

13. Gofynnais i'r Llysgenhadon ganolbwyntio eu hymdrechion ar yr agweddau hynny o'r cronfeydd a reolir yn uniongyrchol gan yr UE lle gallant gael yr effaith fwyaf yn unigol ac ar y cyd. Fe wnaethant nodi Busnesau Bach a Chanolig a Phrifysgolion a phobl ifanc o blentyndod cynnar i gyflogaeth fel meysydd blaenoriaeth ac roeddwn yn cytuno y dylai eu ffocws dechreuol fod ar Erasmus a Rhaglen Ddiwylliant Ewrop - Dr Hywel Ceri Jones; Datblygu Economaidd (yn cynnwys Horizon 2020, Interreg a chronfeydd YaD) - Dr Grahame Guilford ac ar gyfranogiad y Trydydd Sector a Threchu Tlodi - Gaynor Richards. Mae'r Llysgenhadon i fod i gyflwyno adroddiad dechreuol i mi yn yr Hydref ac yna set derfynol fwy sylweddol o argymhellion yn ystod Gwanwyn 2016.

*Ymgysylltu*

14. Mae llawer o waith cychwynnol y Llysgenhadon wedi cynnwys cyfres o gyfarfodydd canfod ffeithiau i weld sut y gallwn wneud defnydd gwell o'r cyfleoedd y mae'r ystod o raglenni'r UE yn eu cyflwyno i Gymru. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Ffederasiwn Busnesau Bach, ynghyd ag amryw o bartneriaid a rhanddeiliaid eraill ar draws pob sector sy'n ymwneud â lleoli a chyflwyno Cyllid Ewropeaidd. Cawsant hefyd gyfres o gyfarfodydd defnyddiol iawn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd pan aethant gyda mi ar fy ymweliad Ddydd Gŵyl Dewi i Frwsel yn gynharach eleni.

15. Gan fod y rhaglenni ariannu hyn a reolir yn uniongyrchol gan yr UE yn torri ar draws Llywodraeth Cymru, mae'r Llysgenhadon hefyd wedi cwrdd â nifer o gyd-Weinidogion a'u swyddogion. Mae cyfarfodydd pellach yn cael eu cynllunio, gan gynnwys cyfarfod gyda'r Prif Weinidog ar 14 Medi.

16. Wrth fwrw ymlaen ag agenda Erasmus ac Ewrop Greadigol, mae Dr Hywel Ceri Jones wedi cwrdd â Julie James (Dirprwy Weinidog Sgiliau) a chyda Ken Skates (Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth) a'u

swyddogion.  Mae hefyd wedi cynnal nifer o gyfarfodydd cynhyrchiol gyda'r Cyngor Prydeinig, sy'n rhoi cymorth ar gyfer Erasmus ar draws y DU. Mae ef yn ymwneud ag archwilio rôl Prifysgolion ledled Cymru o ran ymgorffori strategaeth o ryngwladoliaeth ar gyfer eu rhaglenni astudio ac addysgu a, gyda chefnogaeth swyddogion a Phrifysgolion Cymru, mae yn y broses o hwyluso cynhadledd ar Erasmus ym mis Tachwedd fel rhan o raglen Fforwm ar Ewrop Llywodraeth Cymru.

17. Mae Dr Grahame Guilford yn cyfuno ei rôl fel Llysgennad gyda'i waith ar raglen datblygu busnes Gwyddorau Bywyd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys cryn weithgaredd yn Ewrop ac mae synergeddau sylweddol i gael eu cyflawni gyda Horizon 2020, Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd ac arian gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd.  Bydd gwaith Dr Guilford, yn arbennig, yn cynnwys nodi arfer gorau o fewn clystyrau diwydiant yn Ewrop a sut y gallai hyn gael ei gymhwyso yng Nghymru.  Rhoddodd gyflwyniad yn y gweithdy iechyd, gofal a gwyddorau bywyd yn ystod digwyddiad WEFO i nodi blwyddyn gyntaf Horizon 2020 fis Chwefror diwethaf, a hefyd yn nigwyddiad blynyddol Fforwm Cymru ar Ewrop: Swyddi a Thwf ym mis Ebrill.

18. Mae Gaynor Richards wedi bod yn weithgar wrth hyrwyddo cyfleoedd cyllido'r UE ar gyfer y trydydd sector, ac mae wedi bod yn gweithio'n agos gyda CGGC.  Roedd hi a Dr Jones yn allweddol wrth drefnu cynhadledd CGGC (WCVA), "Mae Ewrop yn Bwysig i Gymru", ym mis Mai.  Bwriad y gynhadledd hon oedd dangos sut y gallai'r ystod eang o gyfleoedd ariannu'r UE, y gallai'r trydydd sector fanteisio arnynt, gyfrannu at drawsnewid Cymru yn economaidd ac yn gymdeithasol. Roedd Mrs Richards yn brif siaradwr a chadeiriodd Dr Jones y panel terfynol.

19. Mae'r Llysgenhadon eisoes yn cael effaith sylweddol ac mae'r gwaith hwn yn mynd i barhau gydag amserlen waith drom wedi'i chynllunio dros yr wythnosau nesaf, gan gynnwys cyfres o gyfarfodydd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, ASE, a swyddogion o Dŷ Cymru ac o Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a leolir ym Mrwsel.  Mae pob un o'r 3 Llysgennad wedi derbyn gwahoddiad i fynychu digwyddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel y mis nesaf hefyd i hyrwyddo'r Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd lle byddaf i yn siarad a lle bydd Hywel Ceri Jones yn cadeirio.

20. Mae'r Llysgenhadon hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r 'rhwydwaith' o swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydlwyd, yn ôl eu hargymhelliad, i gynrychioli ac adrodd ar fuddiannau Ewropeaidd polisïau pob portffolio. Mae'r rhwydwaith wedi gwneud cynnydd da wrth fapio trefniadau ymgysylltu presennol a rhai posibl yn y dyfodol.  Bydd hyn yn arf cyfathrebu defnyddiol yn y dyfodol a bydd yn cynorthwyo'r Llysgenhadon wrth lunio eu hadroddiad i mi yn yr Hydref.

**Horizon 2020**

21. Mae'n dal yn gynnar yng nghyfnod y rhaglen i gadarnhau tueddiadau ystadegol, ond mae'n amlwg bod Horizon 2020, yn ôl y disgwyl, yn fwy cystadleuol na Rhaglen Fframwaith 7 (FP7) a'i rhagflaenodd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o rannau'r rhaglen wedi eu gordanysgrifio'n helaeth, gan gynnwys mentrau newydd fel yr Offeryn BBaCh (SME).

22. O ystyried lefel y gystadleuaeth, mae perfformiad sefydliadau Cymru wedi bod yn galonogol mewn sawl maes. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (o 17 Gorffennaf, 2015[1]) yn dangos bod 44 o gyfranogwyr o Gymru wedi eu dewis am arian, yn cynnwys €17.6 miliwn o arian yr UE. Mae hyn yn golygu bod sefydliadau yng Nghymru ar ôl galwadau'r flwyddyn gyntaf, wedi cael mynediad at 12% o gyfanswm y swm a gyflawnwyd yn y 7 mlynedd o fodolaeth FP7.

23. Mae'r gyfradd llwyddiant ar gyfer ceisiadau yng Nghymru ychydig o dan 14% ar hyn o bryd, sy'n is na chyfartaledd cyfatebol yr UE o 16%. Mae'n ymddangos fod y patrwm ar gyfer cyfranogiad Cymru yn debyg i FP7, gyda lefelau uchaf y cyllid gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd, Marie Sklodowska-Curie, TGCh a Bwyd, Amaethyddiaeth, Morol a Biotechnoleg.

24. Gallai her rhaglen mor gystadleuol gael ei gwrthbwyso gan ymdrechion yr holl randdeiliaid i ddatblygu ar y gwersi a ddysgwyd o flwyddyn gyntaf Horizon 2020. Mae cynnydd nodedig mewn brwdfrydedd ymhlith rhanddeiliaid o Gymru i weithio gyda'i gilydd er mwyn cael mynediad i Horizon 2020, gan ddarparu amgylchedd addawol ar gyfer mesurau Llywodraeth Cymru i hwyluso mwy o geisiadau llwyddiannus.

25. Archwiliodd Astudiaeth Gwmpasu[2] Horizon 2020 CM International y ffordd orau o gefnogi sefydliadau yng Nghymru i gael mynediad i Horizon 2020. Cymeradwyodd yr Astudiaeth y dull a gymerodd Uned Horizon 2020 Llywodraeth Cymru drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, y DU ac Ewrop i gydgysylltu a hwyluso camau a fydd yn gwneud y gorau o gyfleoedd Horizon 2020 ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.

26. Mae argymhellion yr Astudiaeth yn cael eu datblygu gan yr Uned o dan bum amcan allweddol:

    - Creu 'grisiau i ragoriaeth' (gan ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a Chronfeydd Buddsoddi i feithrin gallu ar gyfer cael mynediad i Horizon 2020);

---

[1] https://ec.europa.eu/programmes/horizon2020/en/horizon-2020-statistics

[2] Astudiaeth Gwmpasu Horizon 2020, CM International, Mai 2014 http://wefo.gov.wales/publications/guidanceandpublications14-20/programmeevaluations14-20/10179328/?lang=en

- Cynyddu ymgysylltiad a llwyddiant busnesau (cymorth un-i-un wedi'i dargedu ar gyfer busnesau);
- Datblygu diwylliant a chymuned Horizon 2020 yng Nghymru (digwyddiadau a gweithgareddau cyfathrebu, gan gynnwys digwyddiad Horizon 2020 blynyddol);
- Gwneud y mwyaf o effaith cymorth yn y presennol a'r gefnogaeth sy'n dod i'r amlwg (rhwydwaith arfer gorau ac ymgysylltu arall, gan gynnwys ym Mrwsel); a
- Chefnogi a datblygu ein harbenigwyr a'n gwerthuswyr (sefydlu cymuned ymarfer ar gyfer arbenigwyr a gwerthuswyr Horizon 2020 Cymru).

27. Gwnaed cynnydd nodedig eisoes yn erbyn yr amcanion hyn fel y nodir isod.

28. Mae nifer o fuddsoddiadau meithrin gallu wedi cael eu gwneud yn barod , gan gynnwys y £35m - £20 miliwn o gymorth Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) - Campws Arloesedd a Menter Aberystwyth a'r £44m - £ 4.5m ERDF - Canolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud hefyd ar gynigion Llywodraeth Cymru, gan weithio'n agos gydag Addysg Uwch yng Nghymru, ar gyfer buddsoddiadau cyflenwol mewn capasiti ymchwilwyr drwy CoFUND Horizon 2020 ac ERDF, gyda chyhoeddiadau yn cael eu disgwyl yn yr Hydref.

29. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Arloesi SMART, a ariennir gan ERDF, sy'n cynnwys cymorth un-i-un wedi'i dargedu i fusnesau Cymru sy'n ystyried Horizon 2020. Mae hyn yn golygu bod cefnogaeth Horizon 2020 yn cael ei integreiddio i mewn i'r cynnig arloesi ehangach, gan sicrhau bod busnesau yn cael y cymorth cywir ar gyfer eu cyfnod datblygu.

30. Cynhaliodd Uned Horizon 2020 Ddigwyddiad Blynyddol cyntaf Horizon 2020 yng Nghymru ym mis Chwefror 2015. O dan y thema "Adeiladu grisiau i ragoriaeth yng Nghymru - gwneud y gorau o effaith cyllid yr UE ar gyfer ymchwil ac arloesi", fe wnaeth y digwyddiad nid yn unig osod yr olygfa o ran y dull strategol tuag at ymchwil ac arloesi yng Nghymru, ond hefyd y cymorth ymarferol sydd ar gael i sefydliadau yng Nghymru gael mynediad at Horizon 2020.

31. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys SCoRE Cymru (Cefnogi Ymchwil Cydweithredol ac Arloesi yn Ewrop), sydd fel rhan o'r 'grisiau i ragoriaeth' wedi ymrwymo dros £166,000 i gefnogi tua 40 o sefydliadau gyda'r costau teithio a'r arbenigedd sy'n ymwneud â datblygu ceisiadau Horizon 2020. Cafodd 73% o'r arian hwn ei ddyrannu i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru.

32. Mae Uned Horizon 2020 yn parhau i weithio'n agos â rhanddeiliaid gan gynnwys Adrannau Llywodraeth Cymru, y sector addysg uwch yng

Nghymru, Innovate UK a Rhwydwaith Menter Ewrop i gydlynu a thargedu cymorth ar gyfer sefydliadau yng Nghymru a rhannu arfer gorau. Mae yna ffocws cryf hefyd ar hyrwyddo arbenigedd Cymru ym Mrwsel, drwy ddigwyddiadau cydlynu a thrwy ddatblygu ac annog cysylltiadau â'r rhwydweithiau cywir. Mae cyfarfodydd anffurfiol cynnar o'r gymuned ymarfer ar gyfer arbenigwyr a gwerthuswyr Horizon 2020 Cymru eisoes wedi dangos y bydd ganddo ran allweddol i'w chwarae.

33. Disgwylir felly y bydd y gwaith o gyflawni'r amcanion allweddol hyn a'r camau gweithredu cysylltiedig yn helpu i gynyddu nifer y sefydliadau o Gymru sy'n gwneud cais i Horizon 2020 a chyfradd llwyddiant eu ceisiadau. Dylai hyn arwain at €40m ychwanegol yn dod i Gymru (o'i gymharu â FP7) a buddiannau strwythurol a diwylliannol hirdymor ehangach.

## Potensial yr Economi Morol yng Nghymru

34. Mae cyfleoedd i gefnogi ynni adnewyddadwy morol o dan Raglenni 2014-2020 ERDF, tra bod y Rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol Ewropeaidd (yn enwedig rhaglenni trawsffiniol Iwerddon a Chymru a Rhaglenni trawswladol Ardal yr Iwerydd) oherwydd eu natur, yn cynnwys yr amgylchedd morol, gan gynnwys yr economi morol, fel blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi.

*Rhaglenni ERDF*

35. Mae rhaglenni ERDF 2014-2020 am y tro cyntaf wedi nodi ynni adnewyddadwy fel blaenoriaeth ynddi'i hun. Mae hyn yn cynnwys amcan penodol yn ymwneud ag Ynni Adnewyddadwy Morol "- Cynyddu nifer dyfeisiau ynni'r tonnau a'r llanw sy'n cael eu profi yn nyfroedd Cymru ac oddi ar arfordir Cymru, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni morol". Mae gan hwn €100m wedi'i neilltuo i'r sector y gellid ei sefydlu yng Nghymru i arwain y byd.

36. Y brif flaenoriaeth yw cyflawni dau barth arddangos (parth arddangos tonnau oddi ar De Sir Benfro a pharth arddangos ffrwd y llanw oddi ar Ynys Môn). Trwy ddarparu'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol generig, gyda phrydlesi tymor hir Ystad y Goron yn eu lle a chysylltiad i'r grid, bydd y parthau hyn yn lleihau'r amser, y costau a'r risgiau i ddatblygwyr unigol yn y sector yn ddirfawr, a thrwy hynny yn cyflymu datblygiad y diwydiant. Dylai'r parth cyntaf fod yn 'agored-i-fusnes' tuag at ddiwedd 2018.

37. Yn y cyfamser, mae dau gynllun sydd wedi'u cymeradwyo o dan y rhaglenni newydd, gyda llawer mwy ar y gweill:

- Mae Deep Green yn ddull unigryw o ymelwa ar ffrwd y llanw gan ei fod yn defnyddio barcutiaid o dan y dŵr sy'n gallu dal a chynhyrchu ynni o

gyflymder llawer arafach llif y llanw nag a fu'n arferol mewn dyluniadau hyd yma, a fydd felly yn sicrhau y bydd adnodd cefnfor llawer mwy helaeth ar gael. Y Buddiolwr yw cwmni o Sweden sy'n sefydlu eu pencadlys yn y DU yn Ynys Môn ac yn creu'r ganolfan gwneuthur yno hefyd. Cafodd y gwaith hwn ei gymeradwyo ym mis Ebrill 2015;

- Mae WaveSub yn waith sydd yng nghamau cynllunio a phrofi fersiwn i raddfa o ateb terfynol cwmni preifat yn Abertawe. Bydd y cam cyntaf hwn yn cael ei ddilyn yn gyflym gan ddyluniad pellach o ddyfais ar raddfa lawn a'i leoli oddi ar arfordir De Cymru gydag arae lawn yn cael ei defnyddio yn y pen draw. Cafodd y gwaith hwn ei gymeradwyo ym mis Awst 2015;

- Mae'r dyfodol  ar gyfer datblygwyr unigol sydd naill ai'n dymuno defnyddio'r parthau arddangos neu ddatblygu yn annibynnol o'r rheiny yn iach iawn ac yn cynnwys datblygwyr o'r Alban, Canada a Gogledd America.

38. Dylid nodi hefyd y tu hwnt i'r arian penodedig hwn, y gallai rhannau eraill o'r rhaglenni gefnogi datblygiad y sector ynni morol yng Nghymru yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae'n bosibl y gallai ymchwilwyr a busnesau yn y sector ynni morol gael mynediad at yr holl gyllid ymchwil ac arloesi, yn ogystal â chyllid wedi'i gyfeirio at fusnesau bach a chanolig. Mae WEFO ar hyn o bryd er enghraifft, yn ystyried cais am y fersiwn nesaf o SEACAMS o dan y flaenoriaeth Ymchwil ac Arloesi, a allai gyrraedd y cam cymeradwyo yn ystod Hydref 2015.

39. Mae datganoli porthladdoedd yn fater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a bydd WEFO yn dymuno sicrhau bod unrhyw fuddsoddiadau yn unol â'r dogfennau polisi / cynlluniau cyflawni diweddaraf.

*Cyfleoedd cyllido eraill*

40. Yn yr un modd gallai rhaglenni datblygu sgiliau a chyflogaeth o dan y Rhaglenni ESF gael eu defnyddio o bosibl i gefnogi datblygiad y gweithlu i gefnogi'r sector ynni morol. Yn anuniongyrchol, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth i'r ardaloedd arfordirol lle bydd dyfeisiau ynni morol yn cael eu profi ac mae'n ystyried datblygu'r ardaloedd hynny.

41. Fel y nodwyd yn gynharach yn y papur hwn, mae rhaglen Horizon 2020 a'r EFSI yn cynnig cyfleoedd, fel y gwna'r Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.  Yn benodol, bydd Rhaglen drawsffiniol Iwerddon a Chymru yn cefnogi cysylltiadau rhwng Addysg Bellach ac Uwch a Busnesau Bach a Chanolig o amgylch blaenoriaethau a rennir y strategaethau arbenigo clyfar yn y ddwy wlad, gan gynnwys y Gwyddorau Morol ac Amgylcheddol (a chan gynnwys ynni adnewyddadwy) .  Mae Rhaglen Ardal yr Iwerydd, er ei bod yn dal i gael ei thrafod, yn debygol o

gynnwys modelau arddangos peilot ynni adnewyddadwy ynghyd â meithrin gallu, i gydlynu'r cadwyni cyflenwi a gwerth ar gyfer ynni adnewyddadwy morol a datblygu rhwydweithiau o glystyrau.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

16 Gorffennaf 2015

Annwyl Gadeirydd

**Bil Drafft Cymru**

Fel yr wyf yn siŵr y gwyddoch, rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU gyhoeddi Bil drafft Cymru yn yr hydref gyda chyfnod o ymgynghori i ddilyn, cyn i'r Bil ei hun gael ei gyflwyno rywbryd yn ystod gwanwyn 2016.

Rwyf wedi trafod y mater gyda'r Dirprwy Lywydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rydym wedi cytuno mai'r Pwyllgor hwnnw sy'n darparu'r cyfrwng mwyaf priodol i'r Cynulliad ystyried y Bil drafft. Yr wyf yn hyderus bod gan y Pwyllgor yr aelodaeth, yr arbenigedd a'r gallu i lunio ymateb cynhwysfawr ac awdurdodol i mi ac i'r Cynulliad ei ystyried a, gobeithio, ei gymeradwyo.

Er bod y Bil yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, caiff ei waith craffu ei gryfhau'n sylweddol os bydd pwyllgorau eraill yn cymryd rhan yn y gwaith. Yn benodol, bydd yn bwysig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac i'r Cynulliad cyfan allu manteisio ar arbenigedd polisi pwyllgorau eraill wrth archwilio effaith disodli ein model presennol o bwerau a roddir gyda model newydd o bwerau neilltuedig.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech ystyried gyda'ch Pwyllgor sut i wneud lle yn yr hyn yr wyf yn sicr fydd yn rhaglen brysur iawn yn yr hydref, i ymgymryd ag archwiliad difrifol o'r Bil mewn perthynas â chylch gwaith eich Pwyllgor. Bydd eich tîm clercio yn gallu rhoi cyngor ar sut i amseru eich ymateb i ychwanegu gwerth at waith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a sicrhau y gall y Cynulliad ddylanwadu ar y ddadl yn San Steffan.

Rosemary Butler

**Rosemary Butler AC, Llywydd**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6232
Ebost/Email: private.office@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

08442 64 06 70
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

At: William Graham AC, Cadeirydd, Pwyllgor Menter a Busnes
CC: Rachel Jones, Dirprwy Glerc, Pwyllgor Menter a Busnes
CC: Martha Howells, Ail Glerc, Pwyllgor Menter a Busnes

14eg Awst 2015

**Par: Adroddiad ar Gyfleoedd Cyflogaeth ar gyfer Pobl dros 50 oed**

Annwyl Gadeirydd,

Hoffwn ddiolch i chi am gynnal yr ymholiad hwn sydd ei angen yn fawr ac am gyhoeddi'r adroddiad ar 16eg Gorffennaf [1].

Mae sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru yn gallu aros mewn cyflogaeth neu gael ailfynediad ato a lleihau'r nifer sylweddol iawn o bobl hŷn nad ydyn nhw mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn faterion allweddol, nid yn unig iddyn nhw fel unigolion, ond ar gyfer ein heconomi ehangach yn ogystal. Rydw i'n falch bod nifer o feysydd a dderbyniodd sylw yn fy nhystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad terfynol.

Mae'r un ar ddeg o argymhellion a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad yn cael eu croesawu ac maen nhw'n allweddol er mwyn sicrhau bod y cyfoeth o wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd gan bobl hŷn yn cael eu defnyddio'n well yn y farchnad lafur yng Nghymru, gan helpu unigolion, cyflogwyr ac economïau lleol yn y broses.

Wedi ystyried y tri argymhelliad sy'n cyfeirio at fy swyddogaeth:

"Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru arwain, a gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru… er mwyn comisiynu ymchwil mewn perthynas â phobl 50 oed a throsodd"; ac

[1] http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10305/cr-ld10305-w.pdf



Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

“Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gomisiynu ymchwil ar ‘hunangyflogaeth a phobl dros 50 oed’”.

Tra fod rhan helaeth o fy ngwaith yn gyd-weithrediadol yn eu hymagwedd, mae’n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn deall ei bod yn bennaf atebol fel rhan o Strategaeth gyffredinol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, Cam 3 2013-23, ac mae eich adroddiad yn alinio’n agos gyda hi, ar gyfer ymgymryd â’r uchod â’r argymhellion ehangach a gafodd eu hamlinellu. Fy marn i yw y dylai Gweinidog arweiniol gael ei benodi i sicrhau bod hyn yn dryloyw a bod cefnogaeth Weinidogol lawn ar ei gyfer. Awgrymaf bod hwn yn gweddu orau i Julie James AC fel y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, ac rydw i wedi ysgrifennu ati yn benodol ynglŷn â hyn (atodaf fy llythyr).

Dim ond pwynt bach ond pwysig ynglyn â eglurder  ar Raglen Heneiddio’n Dda yng Nghymru. Er cafodd y rhaglen ei sefydlu ac yn cael ei chynnal gennyf fi, nid yw hon yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru nac yn rhaglen gennyf fi. Mae’n bartneriaeth ar y cyd nad yw’n derbyn unrhyw gyllid penodol gan y Llywodraeth.

Gan gyfeirio’n benodol at Argymhelliad 4, byddaf yn lansio ymgyrch “Dywedwch Na wrth Wahaniaethu ar sail Oedran” ym mis Hydref eleni a gall Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â mi ac eraill.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi am eich gwahoddiad i fynychu’r cyfarfod Pwyllgor ar 7 Hydref i graffu ar ymateb Llywodraeth Cymru.  Byddaf yn mynychu’r cyfarfod ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ymhellach er mwyn sicrhau bod rhagolygon cyflogaeth ar gyfer pobl hŷn drwy Gymru yn cael eu gwella.

Mae croeso i chi gysylltu â mi neu gydag Iwan Williams, Arweinydd Cymunedau, Llywodraeth Leol a Llesiant (iwan.williams@olderpeoplewales.com, 02920 445 045), pe byddech yn dymuno trafod y materion hyn yn fanylach.

Cofion gorau,



**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon